



1 Mehefin 2022

Cathryn Ings  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone  
03305 880450

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# Joanna Scanlan yn ei rôl gyntaf yn y Gymraeg

Mae Joanna Scanlan, enillydd gwobr Bafta Leading Actress 2022 wedi bod yn serennu mewn drama seicolegol newydd sbon **Y Golau** sydd i'w weld ar S4C bob nos Sul. Yn wreiddiol o ardal Ruthin ond nawr yn byw yn Llundain, mae Joanna wedi mynd yn ôl i'w gwreiddiau.

Dechreuodd hi ddysgu'r iaith yn y gyfres Iaith Ar Daith ar S4C llynedd – ac nawr bron union blwyddyn yn ddiweddarach mae hi'n actio yn y Gymraeg.

Dyma Joanna yn sôn am ei phrofiadau yn ffilmio **Y Golau**, actio yn y Gymraeg am y tro gyntaf a'r help mae hi wedi derbyn gan ei theulu.

### **Joanna, dweud wrthym ni am y ddrama Y Golau a dy rôl di ynddi.**

**Joanna:** Mae'r ddrama yn adrodd stori menyw ifanc Cat Donato (Alexandra Roach) sydd wedi gadael y dref lle bu hi'n byw yn ei harddegau ac wedi mynd i ffwrdd a chreu bywyd i'w hunan yng Nghaerdydd. Mae hi'n newyddiadurwraig ac yn edrych am straeon er mwyn hybu ei gyrfa. Pan mae'n sylweddoli bod y dyn a lladdodd ei ffrind ysgol ar fin cael ei ryddhau ar barôl, mae'n dychwelyd i'r dref.

Rwy'n chwarae rhan Sharon Roberts - mam y ferch a chafodd ei llofruddio. Dyw'r llofrudd Joe Pritchard (Iwan Rheon) byth wedi datgelu beth mae e wedi gwneud gyda'r corff. Felly mae Sharon yn cael sioc fawr i glywed bod Joe wedi cael ei ryddhau. Mae hi'n dechrau cymryd pethau i'w dwylo ei hunan sydd yn anghyfreithlon ac yn amheus iawn yn seicolegol.

### **Wnes ti ddechrau dysgu Cymraeg llynedd pan wnes ti gymryd rhan yn y rhaglen ddysgwyr Iaith Ar Daith ar S4C. A oeddet yn meddwl pryd hynny y byddet ti'n actio mewn drama iaith Cymraeg cwta flwyddyn yn ddiweddarach?**

**Joanna:** Dwi methu credu yn gyntaf, eu bod nhw wedi meddwl amdana i ac yn ail, eu bod nhw wedi meddwl fy mod i'n gallu gwneud e! Yr unig ffordd galla i resymoli yw - wel, os ydyn nhw'n ddigon gwallgo' i feddwl galla i wneud drama iaith Gymraeg, wedyn mae'n rhaid i fi fod yn ddigon gwallgo' i roi cynnig arni."

A wnes i fwynhau pob eiliad er ei fod yn hynod o heriol. Ac mae'n anodd, heb amheuaeth, ond rydych yn cael cymaint o foddhad am y gwaith ac mae hynna'n gyrru chi ymlaen. Ry'ch chi jysd eisiau mynd yn ôl a gwneud e gyd unwaith eto. Mae e wedi bod yn anhygoel a galla i ddim diolch digon iddyn nhw (Triangl, S4C, Duchess Street Productions a Channel 4) am roi'r cyfle yma i fi.

### **Mae gennyf ti deulu sy'n siarad Cymraeg - beth maen nhw'n meddwl amdanat ti'n actio yn y Gymraeg? Wnaethon nhw dy helpu ti i ddysgu dy linellau?**

**Joanna:** Maen nhw'n rili cyffrous am y peth - fy mam yn enwedig oherwydd mae hi wedi bod yn gefnogwr brwd o'r iaith Gymraeg.



Mae fy nith wedi tyfu fyny gyda'r iaith Gymraeg - felly mae e'n llai o beth iddi hi fy mod i'n siarad Cymraeg ond hi sydd wedi bod yr arweinydd gorau oherwydd, yn gyntaf, mae hi'n dod o Ogledd Cymru ac mae fy nghymeriad i, Sharon, yn hefyd.

Yn y dyddiau cynnar pan oni braidd ar goll efo'r iaith, roedd hi'n dda iawn yn dod i fyny â rhythmau a siantiau a ffyrdd i jysd clou pethau mewn ac felly gwneud i bethau deimlo'n fwy naturiol. Y prif beth ddwedodd hi wrtha i pan oni'n dechrau panicio oedd - *get a grip!*

Gallwch dal i fyny gyda **Y Golau** ar S4C Clic a BBCiPlayer nawr. Gallwch ddal i fyny gyda **Y Golau** ar S4C Clic a BBCiPlayer nawr. Bydd pob pennod ar gael ar S4C Clic o 12 Mehefin.

Noddwyd **Y Golau** ar S4C gan Brifysgol Bangor.

### **Y Golau**

**Nos Sul 12 Mehefin, 9.00, S4C**

**Is-deitlau Saesneg ar gael**

**Ar Alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**

**Cynhyrchiad Triongl/Duchess Street Productions gyda Channel 4 a Sundance Now ar gyfer S4C**



1 June 2022

Cathryn Ings  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone  
03305 880450

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

### Joanna Scanlan in her first Welsh language role

Joanna Scanlan, winner of the Bafta Leading Actress 2022 award has been starring in exciting psychological drama **Y Golau** on S4C every Sunday night. Originally from Ruthin in north Wales but now living in London, Joanna has gone back to her roots.

She started learning Welsh in the *Iaith Ar Daith* (Welsh Roadtrip) series on S4C last year – and now almost exactly a year later she is acting in Welsh.

Here Joanna talks about her experience of filming **Y Golau**, acting in Welsh for the first time and the support she has received from her family.

#### **Joanna, tell us about Y Golau and your role in it:**

**Joanna:** The drama is the story of a young woman Cat Donato (Alexandra Roach) who has left the town that she lived in her teens and gone off and made a life in Cardiff. She's a journalist and she's looking for stories to promote her career. And when she realises that the killer of her former school friend is about to be released on parole, she goes back to her town.

I play Sharon Roberts the mother of the victim of the murder. The killer Joe Pritchard (Iwan Rheon) has never revealed what he has done with the body. So Sharon's deeply shocked when he's released on parole. She begins to take things into her own hands, which is illegal in itself and wildly, psychologically unsettled and disturbed.

#### **You started learning Welsh last year when you took part in Iaith Ar Daith. Did you think then that just a year later, you'd be acting in a Welsh language drama?**

**Joanna:** Oh my God no! I can't believe firstly that they thought of me and secondly that they thought I could do it! The only way I can rationalise it is - well, if they're crazy enough to think I could do a Welsh language drama, then I've got to be crazy enough to try!

And I have loved every second of it even though it is massively challenging. And it is hard, there is no doubt, but you get so much reward for that work that it is quite compelling. You just want to go back and do it again. It's been absolutely wonderful and I can't thank them enough (Triangl, S4C, Channel 4, Duchess Street Productions) for taking a punt on me. I'm staggered and I am a better person for doing this, no doubt about it in my mind!

#### **You have Welsh-speaking family in Wales, what did they about you acting in Welsh? And have they helped you learn your lines?**

**Joanna:** They are really excited about it. My mum is especially excited because she's long been a supporter of the Welsh language. My niece has been brought up speaking Welsh so for her it's less of a deal that I'm speaking Welsh but she has been the best guide because firstly, she is North Walian and my character Sharon is too.



In the early days when I really was at a loss to know what anything meant, she was just brilliant at inventing rhythms and chants and ways to just lock it in so that it would seem more natural. Her main line to me when I was panicking and thinking 'I can't do this' was 'get a grip'!

You can catch up with **Y Golau** on S4C Clic and BBCiPlayer now. Every episode will be available on S4C Clic from 12 June.

**Y Golau** on S4C is sponsored by Bangor University.

**Y Golau**

**Sunday 12 June, 9.00, S4C**

**English sub-titles available**

**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**

**A Triangl/Duchess Street Productions production with Channel 4 and Sundance Now for gyfer S4C**